Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Thai

“Ydw i’n gymwys i gael gwasanaethau neu gymorth?”

(Sut i dderbyn gwasanaethau Gofal Cymdeithasol yn Sir Gaerfyrddin)

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

Os oes angen y wybodaeth hon arnoch mewn print bras, Braille neu ar dâp sain ffoniwch 01267 228925

Gellir cael gwybodaeth am y gwasanaethau a ddarperir gan Gyngor Sir Caerfyrddin ar wefan y cyngor: www.sirgar.gov.uk

SCH10/30/07/b

Cynnwys

Rhif y Dudalen

Beth yw Gofal Cymdeithasol? 4

Asesiadau Gofal Cymdeithasol a Chynlluniau Gofal Personol 4

Pwy sy'n gallu derbyn Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol? 4

Ydw in gymwys i gael gwasanaethau a chymorth 5

Sut mae penderfynu pwy sy'n gymwys 6

Ble mae Sir Gaerfyrddin wedi 'tynnu'r llinell' o ran mesur pwy sy'n gymwys? 7

Eich hawl i apelio ac i gymorth eiriolwyr 9

Cyfrinachedd 9

Faint y bydd yn rhaid i mi ei dalu am y gwasanaethau hyn? 10

Beth fedraf ei wneud os bydd rhywbeth ym mynd o'i le? 10

O ble gallaf gael rhagor o wybodaeth 11

Beth yw Gofal Cymdeithasol?

Mae angen gofal neu gymorth ar lawer o bobl oherwydd eu hoedran, anabledd neu wendid. Mae'n well gan y rhan fwyaf ohonynt aros yn eu cartref eu hunain ond mae'n bosibl y bydd angen help arnynt. Hanfod Gofal Cymdeithasol yw cynnig i bobl sy'n dymuno aros yn eu cartref eu hunain ystod o wasanaethau a fydd yn eu cynorthwyo nhw a'u gofalwyr i wneud hyn. Yn ogystal, darperir cymorth i symud i gartref gofal os bydd angen.

Asesiadau Gofal Cymdeithasol a Chynlluniau Gofal Personol

Rhaid i'ch anghenion gael eu hasesu cyn y medrwch gael cymorth neu Wasanaethau Gofal Cymdeithasol. Bydd **Cynlluniau Gofal Personol**, sy'n nodi'r cymorth y byddwch yn ei dderbyn, yn cael eu llunio gyda chi cyn i'r gwasanaethau ddechrau.

Gellir cael gwybodaeth bwysig am **Asesiadau Gofal Cymdeithasol a Chynlluniau Gofal** yn ein taflen gysylltiedig sy'n dwyn y teitl hwnnw. Darllenwch y daflen honno, cyn y daflen hon os yn bosib, a chewch fwy o fanylion am y broses asesu a chynllunio gofal.

Pwy sy'n gallu derbyn gwasanaethau Gofal Cymdeithasol?

- Pobl hŷn a phobl sy'n agored i niwed sydd ag anghenion o ran gofal
- Pobl sydd ag anableddau corfforol
- Pobl sydd ag anableddau dysgu
- Pobl sydd â nam ar y synhwyrau
- Pobl sydd ag anghenion iechyd meddwl
- Pobl sy'n camddefnyddio sylweddau
- Gofalwyr y mae angen cymorth arnynt i'w galluogi i barhau i ofalu am eraill

Mae'n bosibl y bydd pobl o unrhyw un o'r grwpiau hyn yn gymwys i gael gwasanaethau unwaith iddynt gael Asesiad Gofal Cymdeithasol. Serch hynny, rhaid i ni, fel unrhyw sefydliad arall, dorri'r gôt yn ôl y brethyn felly mae'n hynod bwysig bod gwasanaethau'n cael eu targedau i'r bobl hynny sydd eu hangen fwyaf. Am y rheswm hwn y mae system 'Mesur Cymhwyster' ar waith er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd.

Ydw i'n gymwys i gael gwasanaethau a chymorth?

I gael gweld a ydych yn gymwys i gael y gwasanaethau neu'r cymorth y mae eu hangen

arnoch yn eich barn chi rhaid i chi, yn gyntaf oll, gael **Asesiad Gofal Cymdeithasol (a elwir hefyd yn Asesiad Unedig)**. Bydd staff Gofal Cymdeithasol, ynghyd ag unrhyw weithwyr proffesiynol perthnasol eraill, fel y bo angen, yn gwneud hyn ar y cyd â chi. **Cyn** y medrant gytuno ar **Gynllun Gofal Personol** gyda chi, bydd rhaid i'ch **Asesiad** ddangos y canlynol:

- Beth yw'ch anghenion o ran cymorth?

a

- Beth yw lefel y risg y mae eich amgylchiadau presennol yn peri i'ch annibyniaeth?

Gofynnir y cwestiynau hyn wrth '**Fesur Cymhwyster'**.

Sut mae penderfynu pwy sy'n gymwys?

Rhaid i ni fesur cymhwyster oherwydd ein bod ni, bob amser, yn wynebu cyfyngiadau o ran yr adnoddau sydd gennym i ddarparu gwasanaethau - ni fydd gennym fyth gronfa 'ddiwaelod'. Yn sgil y twf yn yr anghenion gofal yn y sir mae'r galw am wasanaethau yn cynyddu felly mae'n hynod bwysig sicrhau bod **blaenoriaeth** yn cael ei rhoi i'r bobl hynny sydd â'r **anghenion mwyaf.** Mae'r broses yn gweithio fel a ganlyn:-

Cam 1	Rydym yn ymchwilio i'ch anghenion, disgwyliadau, cryfderau a'ch dyheadau (a, gyda'ch caniatâd chi, yn ymgynghori efallai â phobl eraill sy'n eich adnabod yn dda). Dyma'r **broses asesu.** Mae'n bosibl bydd nifer o 'aseswyr gofal' hyfforddedig ynghlwm wrth y broses hon, gan ddibynnu ar ystod eich anghenion. **Ymhob** achos ac eithrio lle mae'r amgylchiadau'n syml ac yn uniongyrchol enwebir '**Cydgysylltydd Gofal'** i arwain y broses a'i chydgysylltu. Bydd rôl y person hwnnw yn cael ei esbonio yn llawn i chi.
Cam 2	Rydym yn ystyried sut bydd eich anghenion yn peryglu'ch **annibyniaeth yn y tymor byr a'r tymor hir.**
Cam 3	Rydym yn cymharu'r risgiau hyn â'n **meini prawf cymhwyster.** Rydym yn defnyddio matrics i'n helpu i benderfynu a yw'r peryglon yn rhai **difrifol, sylweddol, cymedrol** neu **isel,** ac mae hyn yn helpu i ni bennu a yw'ch anghenion yn uwch neu'n is na'r **'llinell o ran cymhwyster i dderbyn gwasanaethau'**.
Cam 4	Yna, awn ati i gytuno ar **Gynllun Gofal Personol** gyda chi a fydd yn nodi'r gwasanaethau a ddarperir i chi i ddiwallu'ch anghenion 'cymwys'.

Ble mae Sir Gaerfyrddin wedi 'tynnu'r llinell' o ran mesur pwy sy'n gymwys?

Mae'r man y tynnwyd y llinell yn pennu'r anghenion hynny a aseswyd fydd fel arfer yn arwain at fod yn gymwys i gael gwasanaethau.

Dan amgylchiadau arferol, polisi Sir Gaerfyrddin yw diwallu'r anghenion hynny sy'n disgyn i fandiau risg difrifol a sylweddol (ond mae'n rhaid inni adolygu hyn unwaith y flwyddyn). Fel arfer ni fydd anghenion sy'n disgyn i'r band **risg cymedrol neu isel** yn gymwys i dderbyn y gwasanaethau a ddarperir neu a gyllidir yn llawn gan y Cyngor Sir. Yn yr amgylchiadau hyn fodd bynnag, byddwn yn rhoi cyngor i chi ynghylch y camau y gallwch chi eu cymryd i ddiwallu'ch anghenion a'r hyn y gall grwpiau cymunedol neu grwpiau gwirfoddol eu cynnig i'ch helpu.

Byddwn hefyd yn parhau i helpu pobl sydd ag angen cymorth yn y gymuned, trwy'r gwasanaethau prydau bwyd, clybiau dydd neu glybiau cinio, neu'r gwasanaethau gwaith, hyfforddiant a chyflogaeth.

Y Matrics Mesur Cymhwyster **Enghraifft yw hon sy'n dangos sut mae'r matrics yn cael ei weithredu:** **Anghenion sy'n ymwneud â Gofal Personol, Lles Corfforol, ac Iechyd Meddwl**	
Risgiau Difrifol	Materion helaeth sy'n ymwneud ag ymddygiad neu iechyd corfforol/iechyd meddwl sy'n peri niwed neu berygl enbyd a all beryglu bywyd y defnyddiwr neu fywydau pobl eraill. O ran iechyd meddwl mae hyn yn cynnwys: salwch difrifol a pharhaol; ysbeidiau cyson o salwch meddwl difrifol; chwalfa feddyliol ddybryd; esgeulustod /camddefnydd sylweddau a all beryglu bywyd. Mae yna dystiolaeth neu amheuon cadarn bod unigolyn wedi'i gam-drin neu ei esgeuluso ac mae gofyn am ymyriad er mwyn amddiffyn yr unigolyn dan sylw.
Risgiau Sylweddol	Materion sylweddol sy'n ymwneud ag ymddygiad neu iechyd corfforol/iechyd meddwl sy'n peri **risgiau, niwed neu berygl sylweddol i'r defnyddiwr neu i eraill ar hyn o bryd neu yn y dyfodol.**

Risgiau Cymedrol	Rhai materion sy'n ymwneud ag ymddygiad neu iechyd corfforol/iechyd meddwl sy'n nodi bod **rhywfaint o risg i annibyniaeth** a/neu ofid ysbeidiol naill ai ar hyn o bryd neu yn y dyfodol.
Risgiau Isel	Ychydig o faterion sy'n ymwneud ag ymddygiad neu iechyd corfforol/iechyd meddwl sy'n nodi mai prin yw'r risg i annibyniaeth.

Eich Hawl i Apelio ac i Gymorth Eiriolwyr

Os yw'r Awdurdod yn penderfynu, ar ôl cynnal asesiad, nad ydych yn gymwys i gael gwasanaethau, byddwn yn ysgrifennu atoch gan nodi ein rhesymau dros wneud y penderfyniad. Os ydych yn anfodlon ar y penderfyniad hwn gellwch apelio. Dylech, yn y lle cyntaf, ysgrifennu at Arweinydd y Tîm a gynhaliodd yr asesiad, gan nodi pam eich bod o'r farn bod penderfyniad y tîm yn amhriodol. Bydd Arweinydd y Tîm yn adolygu'r achos a gall ofyn am asesiad arall (er mwyn cael rhagor o wybodaeth) cyn y bydd yn ategu'r penderfyniad gwreiddiol neu'n ei wrthod.

Os bydd Arweinydd y Tîm yn gwrthod yr apêl bydd yn ysgrifennu atoch gan gynnig cyfeirio'r mater at Bennaeth y Gwasanaethau Integredig neu Bennaeth y Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu.

Gallwch chi, neu eich gofalwr/eiriolwr, os dymunwch, ofyn i rywun siarad ar eich rhan neu gyflwyno'ch pryderon neu broblemau i'r Awdurdod. Byddwn yn barod i weithio gyda'r cynrychiolydd a benodir gennych ar yr amod bod ganddo/ganddi eich caniatâd i weld gwybodaeth benodol, (y mae'n ddyletswydd arnom ei chadw'n gyfrinachol), er mwyn asesu'ch anghenion ymhellach a/neu ddatrys eich pryderon. Gall y cynrychiolydd hwn fod yn gyfaill neu'n aelod o'ch teulu, neu'n sefydliad sy'n cynnig cymorth o ran eiriolaeth.

Cyfrinachedd

Mae llawer iawn o'r wybodaeth a gawn gennych chi neu gan eraill ar eich rhan, yn bersonol. Parchwn hynny, a byddwn yn sicrhau bod gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei chadw'n ddiogel, yn aros yn breifat ac yn cael ei defnyddio yn unig i'n helpu ni i ddarparu'r gwasanaethau yr ydych eu hangen. Byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth yn unig am y rhesymau yr ydych wedi cytuno iddynt a dim ond y staff sy'n ymwneud â darparu eich gwasanaethau fydd yn cael gweld eich ffeil.

Efallai y gofynnir i ni ar adegau i rannu gwybodaeth gyda phobl broffesiynol eraill. Fer arfer fodd bynnag, ni ddatgelir honno heb i chi fod yn gwybod am hynny ac yn caniatáu i hynny yn unol â Deddf Diogelu Data 1998. Ceir adegau pan fydd yn ofynnol i ni o dan y

gyfraith ddatgelu gwybodaeth heb eich caniatâd er enghraifft:

- i'r heddlu neu'r llys mewn achosion cyfreithiol neu droseddol difrifol, neu
- i atal niwed difrifol i chi neu i bobl eraill

Faint y bydd yn rhaid i mi ei dalu am y gwasanaethau hyn?

Ni chodir tâl am gynnal Asesiad Gofal Cymdeithasol nac am ymweliadau gan staff Gofal Cymdeithasol. Serch hynny, codir tâl am rai o'r gwasanaethau. Bydd y swm y disgwylir i chi ei gyfrannu yn dibynnu ar fath a lefel y gwasanaethau y byddwch yn eu derbyn. Bydd y staff Gofal Cymdeithasol yn fwy na pharod i roi cyngor i chi ynghylch y tâl a godir am y gwasanaethau.

Beth fedraf ei wneud os bydd rhywbeth yn mynd o'i le?

Os ydych yn anfodlon ar unrhyw un o'n gwasanaethau neu ar y ffordd y deliwyd â'ch achos, mae gennych yr hawl i gwyno. Gallwch, os dymunwch ofyn i rywun siarad ar eich rhan neu fod yn gefn i chi.

Gellir dod o hyd i ragor o fanylion am sut i ddefnyddio'r weithdrefn gwneud cwyn yn y daflen "Ydych chi'n fodlon ar ein gwasanaethau?" neu gallwch gysylltu â'r Swyddog Cwynion, ym mhrif

swyddfa'r adran, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin, rhif ffôn: 01267 228835.

O ble gallaf gael rhagor o wybodaeth?

Cyngor cyffredinol yn unig a geir yn y daflen hon. Os bydd angen cyngor arnoch ynghylch eich anghenion unigol mae croeso i chi gysylltu â'r swyddfa Gwasanaethau Cymdeithasol sydd agosaf neu fwyaf priodol. Rhestrir manylion y swyddfeydd hyn ar y tudalennau nesaf:

Gwasanaethau i bobl hŷn ac oedolion ag anableddau corfforol

Tîm Caerfyrddin, Maes Cambria, Caerfyrddin 01267 224421

Tîm Dinefwr, Swyddfeydd y Cyngor, Heol Cligant, Llandeilo 01558 825371

Tîm Llanelli, 3 Rhodfa'r Goron, Llanelli 01554 779621

Tîm Ysbyty Caerfyrddin, Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru, Glangwili, Caerfyrddin 01267 227562

Tîm Ysbyty Llanelli, Ysbyty Tywysog Phillip, Bryngwyn Mawr, Dafen, Llanelli 01554 756567

Gwasanaethau i bobl ag anghenion iechyd meddwl:

Tîm Caerfyrddin, Canolfan Adnoddau Parcyffynnon, 22 Parcyffynnon, Caerfyrddin

01267 236017

Tîm Dinefwr, Sŵn y Gwynt, Lôn Tir-y-dail, Rhydaman 01269 595473

Tîm Llanelli, Clinig Brynmair, 13 Heol Goring, Llanelli 01554 772768

Tîm Llangadog, Yr Hen Laethdy, Heol yr Orsaf, Llangadog 01550 777771

Gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu:

Tîm TCAD Caerfyrddin, 1 Pen-lan, Heol Pen-lan, Caerfyrddin 01267 236899

Tîm TCAD Llanelli, 12 Bay View, Heol y Capel, Llanelli 01554 775916

Gwasanaethau i bobl sy'n camddefnyddio Sylweddau

Tîm Sir Gaerfyrddin, 3 Rhodfa'r Goron, Llanelli 01554 779649